ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Gwybodaeth ar gyfer ysgolion, lleoliadau, rhieni a gofalwyr

**Mae athrawon ac arbenigwyr addysg o bob cwr o Gymru wedi bod yn cydweithio i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru.**

**Mae angen i ni helpu ein pobl ifanc i ragori ym mhob agwedd ar fywyd, fel eu bod yn tyfu i fod yn oedolion iach, hyderus. Dylai addysg annog a chefnogi pobl ifanc i barchu eu hunain ac eraill, i werthfawrogi amrywiaeth, a rhoi'r gallu iddyn nhw feithrin perthnasoedd iach, llawn parch.**

**Mae Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad.**

## Beth yw addysg cydberthynas a rhywioldeb?



Dylai fod gan bob person ifanc yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys dysgu am berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, ar-lein ac all-lein, a bod yn hyderus i godi materion gydag oedolion cyfrifol.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi'i gynllunio i ddiogelu ein holl blant a phobl ifanc, gan eu cefnogi i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau a fydd yn helpu i'w hamddiffyn trwy gydol eu bywydau.

Mae hyn yn hanfodol i adeiladu cymdeithas sy'n trin eraill gyda dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd, cefndir economaidd cymdeithasol, anabledd, rhyw, rhywedd neu rywioldeb.

# Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb?



**Mae'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn rhoi manylion i ysgolion a lleoliadau ar yr hyn y mae'n rhaid ei addysgu a phryd. Rydym ni'n annog rhieni a gofalwyr i ddarllen y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb sydd wedi ei gyhoeddi er mwyn iddyn nhw ddeall beth fydd eu plant yn ei ddysgu a phryd. Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (gov.wales)**

Cymerwyd gofal mawr i sicrhau y bydd yr holl ddysgu o fewn addysg cydberthynas a rhywioldeb yn briodol o ran datblygiad, ac mae'r athrawon, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud a'i ddatblygu wedi sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae adran addysg cydberthynas a rhywioldeb fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb: beth gaiff ei ddysgu a phryd
- y canllawiau statudol: mae hyn yn cefnogi ysgolion wrth ddatblygu eu cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb.

# Addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad

**Mae gofynion cyfreithiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn briodol o ran datblygiad, gan gynnwys yr adnoddau fydd ysgolion yn eu defnyddio i'w weithredu.**

Mae pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol i gyd wedi'u cynnwys yn y Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb, ond ar gamau datblygu priodol fel nad yw dysgwyr yn cael eu hamlygu i bethau nad ydyn nhw'n briodol i'w hoedran a'u datblygiad.

Bydd plant iau, er enghraifft, yn cael eu haddysgu am drin ei gilydd gyda charedigrwydd ac empathi. Wrth i blant dyfu'n hŷn, byddant yn dod i ddeall pynciau fel diogelwch ar-lein, cydsyniad ac iechyd rhywiol – a bydd pob pwnc yn cael ei drin mewn ffordd sensitif.



Bydd dysgu o fewn addysg cydberthynas a rhywioldeb hefyd yn cynnwys cydnabod, deall a siarad am bob math o wahaniaethu, trais, cam-drin ac esgeulustod a cheisio cymorth a chyngor ar amrywiaeth o faterion gan ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt.

Mae gofyniad cyfreithiol hefyd ar addysg cydberthynas a rhywioldeb i fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn plwraliaethol: sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu gwybodaeth ffeithiol ac ar gwestiynau am werthoedd, amrywiaeth o safbwyntiau ar bwnc penodol, a ddelir yn gyffredin mewn cymdeithas.


# Cynnwys rhieni a gofalwyr



**Mae'r canllawiau statudol yn glir iawn ein bod yn disgwyl i ysgolion weithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn deall yr hyn y mae eu plant nhw'n ei ddysgu.**

Dylai fod gan ysgolion a lleoliadau linellau cyfathrebu clir mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb ac y dylen nhw ymgysylltu a dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach ynglŷn a dysgu ac addysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Dylai ysgolion sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ddysgu a pham, gyda chyfle i ofyn cwestiynau ac eglurhad. Mae'r Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi'i gyhoeddi i roi eglurder a thryloywder i rieni a gofalwyr ynghylch yr hyn y bydd eu plant yn ei ddysgu a phryd.



## Dolenni defnyddiol

- **Canllaw i'r cwricwlwm i rieni a gofalwyr**
- **Canllawiau statudol a chod addysg cydberthynas a rhywioldeb**
- **Rhestr chwarae addysg cydberthynas a rhywioldeb**


ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllaw i'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

1

# Astudiaeth achos



## Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Abertawe

**Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cynnwys dysgu am berthnasoedd iach, empathi, cadw'n ddiogel, a bod yn hyderus i godi materion gydag oedolion cyfrifol.**

Dysgodd rhai ym Mlwyddyn 1 yn Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Abertawe am berthnasoedd iach yn ystod sesiwn dosbarth gyda'r Prosiect Sbectrwm. Roedd y sesiwn yn cynnwys dysgu a oedd yn briodol ac yn ddatblygiadol o amgylch pynciau fel caniatâd, amrywiaeth a pherthnasoedd. Cymerodd y dysgwyr ran mewn gweithgareddau megis gwneud 'cawl cyfeillgarwch', i ddeall pa rinweddau sy'n gwneud ffrind da.



Yn ystod y sesiwn, dywedodd rhiant-lywodraethwr: "Rwy'n credu bod sesiynau fel hyn mor bwysig. Maen nhw'n canolbwyntio ar helpu'r plant i feithrin perthnasoedd iachus a datblygu empathi tuag at ei gilydd. Maen nhw'n dysgu sut i ddeall eu ffrindiau yn well, yn enwedig rhai sydd yn wahanol iddyn nhw mewn rhyw ffordd, sydd ond yn gallu bod yn peth da."

**Gwyliwch yr astudiaeth achos fideo 'Addysg cydberthynas a rhywioldeb gyda Blwyddyn 1 yn Ysgol Brynsierfel.**





OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru
WG49369, ISBN digidol 978-1-83577-593-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg